



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2018/19

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL

ISBN 978-1-78937-213-7
Cylch gwaith blynyddol Estyn 2018/19 -© Hawlfraint
y Goron Rhagfyr 2017
WG34974

Cynnwys

Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2018/19

1. Y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2018/19.

Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2018/19

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2018/19 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Mae'r cylch gwaith blynyddol yn ychwanegol at waith craidd Estyn o gynnal arolygiadau.

Mae'r ddogfen yn nodi'r canlynol:

1. y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2018/19, sy'n cynnwys:
 - a) helpu i gynhyrchu pecyn cymorth cenedlaethol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant drwy gydweithio ag OECD er mwyn cefnogi ein system atebolrwydd newydd arfaethedig;
 - b) materion lle gofynnir i Estyn ddarparu adroddiadau manwl a, lle bo'n briodol, adnoddau eraill sy'n tynnu ar dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiadau thematig;
 - c) gweithgorau y gofynnir i Estyn eu cefnogi;
 - d) meysydd eraill lle gallai Llywodraeth Cymru geisio cyngor a chymorth.

1. Y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2018/19

1a) Helpu i gynhyrchu pecyn cymorth cenedlaethol i ysgolion ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

Bydd Estyn yn gweithio gyda OECD i arwain a hwyluso gweithgor er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn a olygir wrth hunanarfarnu a chynllunio da yng Nghymru gan greu un pecyn cymorth.

1b) Adroddiadau manwl a, lle bo'n briodol, adnoddau eraill sy'n tynnu ar dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiadau thematig

Caiff yr adolygiadau thematig sydd i'w cynnwys yng nghylch gwaith Estyn ar gyfer 2018/19 eu rhestru yn y tabl isod.

Mae'r rhestr yn cynnwys 12 eitem: 8 adolygiad safonol; a 4 adolygiad byr.

Mae'r rhestr o eitemau yn adlewyrchu cylch gwaith strategol sy'n gysylltiedig â'm blaenoriaethau ar gyfer addysg a hyfforddiant, gyda phwyslais ar ganlyniadau *Dyfodol Llwyddiannus* a'm cynllun gweithredu *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021*.

	Teitl	Diben	Blwyddyn/ Cyfnod
1.	Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: blwyddyn 3.	Bydd yr adolygiad hwn yn adroddiad ar gyflwr y genedl sy'n gwerthuso dysgu proffesiynol ar draws y consortia rhanbarthol a sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio, a byddai'n casglu arfer da.	Blwyddyn 3 o 3 Adolygiad safonol
2.	Maes dysgu a phrofiad iechyd a lles	Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau ar feysydd pwnc y cwricwlwm. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y maes dysgu a phrofiad iechyd a lles mewn ysgolion cynradd ac uwchradd drwy ymagwedd gyfannol.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol
3.	Darpariaeth ADY mewn ysgolion prif ffrwd – canllaw arfer da	Bydd yr adolygiad hwn yn dilyn yr adroddiad thematig byr yn 2017/2018 a ganolbwyntiodd ar ba mor barod yw ysgolion i fodloni gofynion y bil ADY newydd. Bydd yn casglu astudiaethau achos o arfer da.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol
4.	Ysgolion ffederal – nodweddion cyffredin cydweithredu effeithiol	Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar wahanol ddulliau a ddefnyddir mewn perthynas ag ysgolion ffederal, gan gynnwys ysgolion pob oed ac uno. Bydd yr adroddiad yn ystyried nodweddion cyffredin cydweithredu effeithiol yn nhrefniadaeth yr ysgolion	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol

		hyn, beth sydd wedi bod yn llwyddiannus ac yn aflwyddiannus a'r rhesymau dros hynny. Bydd yn casglu astudiaethau achos o arfer da.	
5.	Gofalwyr ifanc	Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr agored i niwed mewn ysgolion a cholegau.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol
6.	Adolygiad o lefel A – astudiaethau cymdeithasol	Yr adolygiad hwn fydd y cyntaf mewn cyfres o adroddiadau i ddarparu trosolwg o'r heriau ac arfer da mewn perthynas â safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth o ran cefnogi dysgwyr chweched dosbarth mewn ysgolion a cholegau. Mae Astudiaethau Cymdeithasol yn cyfeirio at bynciau megis y gyfraith, seicoleg, cymdeithaseg, athroniaeth, llywodraeth a gwleidyddiaeth, dinasyddiaeth a meddwl yn feirniadol..	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol

7.	Partneriaethau â chyflogwyr.	Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar faint ac ansawdd yr ymgysylltu ar gyfer partneriaethau rhwng sectorau addysgol (yn enwedig ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith) a chyflogwyr. Byddai'n rhoi sylw i gyngor ac arweiniad diduedd, profiadau cysylltiedig â gwaith a gweithgareddau entrepreneuriaidd, ynghyd â gwybodaeth am y farchnad leol a sgiliau ar gyfer yr economi. Byddai'n ystyried hefyd rôl Gyrfa Cymru o ran hwyluso'r cysylltiadau rhwng darparwyr a chyflogwyr ac o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol
8.	Darpariaeth ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd Sipsi, Roma a Theithwyr a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig	Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gynnydd mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd Sipsi, Roma a Theithwyr a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig ers adroddiad 2011 Estyn. Bydd yn ystyried effaith y trefniadau ariannu newydd ar y gwasanaethau addysgol presennol a'r cymorth ar gyfer deilliannau addysgol y dysgwyr hynny. Wrth baratoi ar gyfer y gwaith hwn, bydd Estyn yn casglu tystiolaeth yn ystod ymweliadau arolygwyr ag awdurdodau lleol.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad byr

9.	Prentisiaethau – canolbwyntio ar Beirianeg	Bydd yr adolygiad hwn yn dilyn adroddiad blaenorol Estyn ar beirianeg yn 2013 trwy ystyried y darlun ar hyn o bryd, gyda'r pwyslais ar brentisiaethau uwch a'r angen am sgiliau STEM. Bydd yn dilyn canfyddiadau'r adroddiad thematig ar brentisiaethau uwch yn 2017-2018.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad byr
10.	Cymorth ar gyfer dysgwyr â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)	Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ysgolion o ddisgyblion â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Bydd yn archwilio hefyd y cymorth mae ysgolion yn ei roi i ddysgwyr â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at astudiaethau achos o ysgolion sy'n darparu cymorth effeithiol.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad byr
11.	PREVENT	Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r agenda PREVENT yn cael ei rhoi ar waith mewn ysgolion ac yn tynnu sylw at astudiaethau achos o arfer gorau i'w rannu ledled Cymru.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad byr

12.	Effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion	Roedd Rheoliadau a gyflwynwyd yn 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Uned Cyfeirio Disgyblion gael pwyllgor rheoli. Bydd yr adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd y pwyllgorau rheoli ers iddynt gael eu sefydlu.	Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol
-----	--	--	----------------------------------

1c) Meysydd polisi y gallai'r Gyfarwyddiaeth Addysg geisio cyngor neu gymorth yn eu cylch, a hynny drwy gyfrannu at waith gweithgorau

Mae Estyn yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn amrywiaeth o feysydd. Gellir gofyn i Estyn roi cymorth i amryw o wahanol weithgorau, drwy ddod yn rhan ohonynt, drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu drwy drafodaethau gydag uwch swyddogion y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Ar gyfer 2018/19, rhagwelir y bydd Estyn yn rhan o'r gweithgorau canlynol, ond bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i'r gwaith fynd rhagddo:

- Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Fforwm Cymru Gyfan Ymarferwyr Addysg Sipsiwn-Teithwyr
- Grŵp Llywio Dysgu Creadigol
- Grŵp Llywio Mesurau Perfformiad Cyson
- Grŵp Arbenigol ar y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu
- Grŵp Cyfathrebu Cwricwlwm Cymru
- Grŵp Llywio DCF Cwricwlwm Cymru
- Bwrdd Rhaglen Cwricwlwm Cymru
- Gweithredu'r Adolygiad o'r Cwricwlwm: y Bwrdd Newid
- Grŵp Llywio DCF
- Gweithgor DCF
- Grŵp Gweithrediadau Digidol
- Gweithgor Safonau Digidol
- Grŵp Safonau Digidol
- Grŵp Cyflenwi Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)
- Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Diwygio Addysg
- Gweithgor Rhanddeiliaid Addysg Ddewisol yn y Cartref
- Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen
- Grwpiau Pynciau TGAU
- Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang
- Panel Arbenigol Cysylltiadau Iach
- Fforwm Arbenigol Addysg Gychwynnol Athrawon
- Bwrdd Recriwtio a Chadw Addysg Gychwynnol Athrawon
- Grŵp Trosglwyddo o Addysg Gychwynnol Athrawon
- Cyfarfod Cadw mewn Cysylltiad (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaethau)

- Bwrdd Prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol
- Fforwm Awdurdodau Lleol – Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol
- Rhwydwaith Rhagoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Mathemateg
- Rhwydwaith Rhagoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Grŵp Strategol Cenedlaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
- Grŵp Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuencid
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET)
- Grŵp Llywio Strategaeth Ddigidol 01-16
- Grŵp Safonau Addysgu Proffesiynol ar gyfer Ymarferwyr Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith
- Adolygiad o Safonau Proffesiynol Athrawon
- Grŵp Llywio Diogelu mewn Addysg
- Bwrdd Cysgodol ar gyfer Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Fforwm Strategol Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfaoedd
- Cynhadledd Gwella a Chymorth Llywodraeth Cymru

Gweithgorau Meysydd Dysgu a Phrofiad Llywodraeth Cymru:

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a llesiant
- Y dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg.

1d) Meysydd eraill y gallai'r Gyfarwyddiaeth Addysg geisio cyngor a chymorth yn eu cylch

Mae Estyn hefyd yn darparu cefnogaeth barhaus yn y meysydd canlynol:

- Cynigion yn ymwneud â chau ac ad-drefnu ysgolion.
- Lleoliadau ar gyfer disgyblion sydd â datganiad o angen addysgol arbennig (AAA), lle mae caniatâd penodol gan Weinidog Cymru yn ofynnol o dan adran 347(5)(b) o Ddeddf Addysg 1996.
- Monitro'n flynyddol ysgolion annibynnol sydd wedi eu cymeradwyo o dan adran 347(1) o Ddeddf Addysg 1996, i dderbyn disgyblion â datganiadau AAA yn gyffredinol ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr; neu ysgol annibynnol sydd wedi'i chofrestru i dderbyn disgyblion sydd ag AAA o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 ac sydd â disgyblion AAA ar y gofrestr.

- Arolygu a monitro'n flynyddol holl golegau arbenigol ac annibynnol Cymru, a darparu arolygydd fel rhan o dîm ar gyfer yr arolygiadau neu'r ymweliadau monitro blynyddol â cholegau arbenigol annibynnol yn Lloegr lle y caiff lleoedd 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru eu cyllido.
- Cofrestru ysgolion annibynnol.
- Grant datblygu disgyblion.
- Y grant gwella addysg ar gyfer ysgolion.
- Datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw ofynion newydd arfaethedig o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes.
- Ysgolion sy'n peri pryder.
- Gwaith dilynol gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol.
- Enwebiadau er Anrhydedd.
- Gwybodaeth gefndir ar gyfer ymweliadau Gweinidog ag ysgolion.
- Cwestiynau'r Cynulliad.